



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adroddiad thematig Estyn ar Ddysgu gweithredol a thrwy brofiad:
Arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen wrth gyflwyno Llythrennedd a Rhifedd
ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2**

OGL

ISBN Digidol 978-1-78859-293-2
© Hawlfraint y Goron 2017
WG27868

Teitl yr adroddiad:

Dysgu gweithredol a thrwy brofiad: Arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen wrth gyflwyno Llythrennedd a Rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2

(Rhagfyr 2017)

Manylion yr Adroddiad

Cyhoeddwyd adroddiad Estyn, *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad: Arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen wrth gyflwyno Llythrennedd a Rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2* ym mis Rhagfyr 2017 mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet at Estyn ar gyfer 2016/2017.

Mae'r adroddiad yn gwerthuso safonau mewn llythrennedd a rhifedd, llais ac annibyniaeth disgyblion, darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, asesu addysgu ac arweinyddiaeth.

Prif ganfyddiadau

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

Safonau mewn llythrennedd a rhifedd

Mewn mwyafrif o'r ysgolion a adolygwyd, mae safonau llythrennedd a rhifedd yn uchel pan fydd disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu medrau siarad a gwranddo effeithiol. Mae athrawon yn darparu cyd-destunau cyffrous ar gyfer dysgu, ac mae hyn yn ennyn ymateb cyfoethog yn iaith lafar plant. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon hefyd yn cydnabod pwysigrwydd 'siarad i ddysgu'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth gynyddol o iaith, mae ganddynt ddychymyg byw a gallant ddefnyddio iaith i archwilio eu profiadau a'u bydoedd dychmygol eu hunain.

Mewn tua chwarter o'r ysgolion a adolygwyd, nid yw disgyblion yn cymhwysu eu medrau ysgrifennu ar draws meysydd dysgu yn ddigon da. Roedd athrawon yn dibynnu gormod ar addysgu ffurfiol a defnyddio taflenni gwaith neu fframiau ysgrifennu i strwythuro ysgrifennu disgyblion. Nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd ysgogol ar gyfer ysgrifennu yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn ddychmygus ac yn annibynnol. Yn ystod gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolyn, nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd i archwilio iaith trwy siarad ag oedolion a disgyblion eraill am bynciau sydd o ddiddordeb iddynt. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu geirfa estynedig nac yn magu hyder i siarad ag eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda mewn mathemateg pan gânt lawer o gyfleoedd diddorol i ddefnyddio eu medrau trwy weithgareddau manylach dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mewn tua chwarter yr ysgolion, mae disgyblion yn gallu trosglwyddo eu medrau mathemategol i

weithgareddau annibynnol yn dda. Wrth edrych ar amrywiaeth o wybodaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus i gofnodi eu canfyddiadau a'u trosglwyddo i siart bar syml. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn dehongli a dethol gwybodaeth o weithgareddau trin data yn ddigon da.

Llais ac annibyniaeth disgyblion

Yn ôl yr adolygiad, mae faint o ddewis a gaiff plant yn amrywio'n sylweddol o un ysgol i'r llall ac o un dosbarth i'r llall. Mae ysgolion sy'n rhoi mwy o gyfle i ddisgyblion leisio barn yn ystyried diddordebau a safbwyntiau eu disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu at weledigaeth yr ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio adborth gan ddisgyblion i gynllunio eu cwricwlwm a datblygu profiadau dysgu. Pan fydd gormod o gyfarwyddyd gan oedolyn wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion neu ddosbarthiadau, a bod y broses yn rhy ffurfiol, mae lefelau dyfalbarhad disgyblion, a'u parodrwydd i fentro'n ofalus yn eu dysgu, yn gostwng. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn llai hyderus yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn annibynnol ar draws meysydd dysgu. Nododd yr arolygiad fod mwy o ddysgu wedi'i gyfeirio gan oedolion na dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn ym Mlwyddyn 2.

Darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd

Yn gyffredinol, nododd yr adolygiad fod ystafelloedd dosbarth meithrin a derbyn wedi'u trefnu'n dda i hyrwyddo dysgu disgyblion trwy ddysgu gweithredol a thrwy brofiad. Fodd bynnag, nid yw'r amgylchedd dysgu ar gyfer Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 wedi'i drefnu'n dda, ac roedd y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau wedi'u trefnu'n ffurfiol gyda'r plant yn eistedd wrth eu desg am gyfran helaeth o'u diwrnod. Mae'r broses o addysgu llythrennedd a rhifedd yn rhy strwythuredig gyda gormod o gyfarwyddyd gan oedolyn yn aml, ac nid yw disgyblion yn rhan ddigonol o ddysgu gweithredol a thrwy brofiad. Nid yw athrawon yn deall nodweddion darpariaeth barhaus, estynedig, ffocysedig o ansawdd da.

Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn integreiddio addysgu medrau ffoneg, darllen a medrau ysgrifennu penodol mewn ffyrdd arloesol yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig. Mae disgyblion yn gallu ymarfer ac ymgorffori eu dysgu, ac mae cydbwysedd da rhwng dysgu trwy brofiad ac agweddau ffurfiol ar addysgu. Fodd bynnag, erbyn Blwyddyn 2, caiff y medrau hyn eu haddysgu ar wahân yn aml. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd disgyblion yn mynd yn rhy gyfyng ac nid yw athrawon bob amser yn annog y disgyblion hyn i ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol ar draws meysydd dysgu.

Argymhellion Estyn

Bwriedir yr argymhellion hyn ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, consortia a Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion yn targedu'r broses o sefydlu arferion addysgeg y Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn y cwricwlwm presennol a'r cwricwlwm newydd. Hefyd, mae'n amlygu'r angen am ragor o

gyfleoedd hyfforddiant a dysgu proffesiynol fel bod uwch arweinwyr ac athrawon yn gallu nodi a rhannu arferion effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 Ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff y Cyfnod Sylfaen i wneud yn siŵr bod ganddynt y medrau, y ddealltwriaeth a'r hyder i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

A2 Sicrhau bod dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn nosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cynnwys cydbwysedd addas rhwng dysgu trwy brofiad ac addysgu ffurfiol.

A3 Cynllunio cyfleoedd rheolaidd i'r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn meysydd darpariaeth estynedig a pharhaus, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd.

A4 Cynnwys disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 mewn penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

A5 Darparu hyfforddiant ar gyfer penaethiaid i'w helpu i nodi, datblygu a rhannu arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen.

A6 Gwneud yn siŵr bod ymgynghorwyr her yn nodi, datblygu a rhannu arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon wrth gynorthwyo ysgolion.

A7 Darparu hyfforddiant ar gyfer ysgolion i'w helpu i nodi, datblygu a rhannu arfer effeithiol mewn addysgu ac asesu medrau llythrennedd a rhifedd yn y cyfnod sylfaen, ar draws y meysydd dysgu.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 Wneud yn siŵr bod ysgolion yn deall addysgeg dysgu gweithredol a thrwy brofiad wrth ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn derbyn yr argymhellion ac yn croesawu'r adroddiad hwn fel ffynhonnell dystiolaeth bwysig i'n helpu i sicrhau bod ysgolion yn gallu cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol i holl ddisgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Hefyd, mae'n galonogol nodi bod yr argymhellion yn cadarnhau camau Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, sy'n nodi dull cenedlaethol o wella sut mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng tair a saith oed yn cael ei

gyflwyno mewn ysgolion a meithrinfeydd. Ei nod yw gwella cysondeb y broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn erbyn yr egwyddorion addysgeg.

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi pwysigrwydd dysgu trwy brofiad yn glir. Mae'r Athro Donaldson yn nodi'n glir y dylai'r cwricwlwm newydd gynnwys 'yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu y mae'r ysgol yn eu cynllunio wrth geisio cyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt.' Mae pwysigrwydd dysgu a phrofiadau yn ganolog, fel y dangoswyd gan y ffaith fod y cwricwlwm newydd wedi'i ddatblygu ar sail Chwe Maes Dysgu a Phrofiadau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod canfyddiadau adolygiad Estyn gyda'r awdurdodau lleol a'r consortia er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu datblygu a, lle bo hynny'n briodol, bod camau presennol yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn ymateb i'r argymhellion a wnaed i gryfhau arfer addysgeg y Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Er mwyn cynorthwyo ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sefydlu rhwydwaith rhagoriaeth genedlaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ledled Cymru. Nod y rhwydwaith yw cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol a chonsortia â sefydliadau addysg uwch er mwyn canolbwyntio mwy ar ddatblygiad proffesiynol seiliedig ar ymchwil ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ar bob lefel. Bydd y rhwydwaith yn ceisio cefnogi arweinyddiaeth addysg yn y Cyfnod Sylfaen, fel rhan o'r dull cenedlaethol o ddatblygu arweinyddiaeth. Bydd yn llwyddo i wneud hyn trwy weithio gyda chonsortia rhanbarthol, ysgolion arloesi, Cyngor y Gweithlu Addysg a rhanddeiliaid eraill yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu gwaith ar raglen hyfforddiant genedlaethol ar gyfer arweinyddiaeth yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd y broses o ddatblygu Parth Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen ar Hwb yn darparu plattform i holl ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen rannu arferion effeithiol fel rhan o ddull gweithredu cenedlaethol ehangach ar gyfer dysgu proffesiynol.

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi'n glir na ddylai'r cwricwlwm newydd fod yn rhy ragnodol, ond y dylai ganiatáu elfen o ymreolaeth wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau bod athrawon yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn eu cymunedau o ran profiadau, ac yn bwysicaf oll, diwallu anghenion eu dysgwyr.

Manylion Cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 14 Rhagfyr 2017 ac mae ar gael ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru/>